

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru â'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Gwarchod Data 2018. Gan edrych ar y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Rhagfyr 2018, mae'n rhoi trosolwg o ddatblygiadau yn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â GDPR a'r Ddeddf Gwarchod Data, diwygiadau i bolisiau a gweithdrefnau'r Llyfrgell, cofnod o gyswllt y Llyfrgell gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, ceisiadau Mynediad Gwrthrych a dderbyniwyd, digwyddiadau tor-diogeledd a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff.

2. Rheoliadau a Chanllawiau

2.1 Yn ystod 2018, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau ar y canlynol:

- Diddordebau cyfreithlon (Mawrth 2018)
- Caniatâd (Mai 2018)
- Aseidiadau Effaith Diogelu Data (Mai 2018)
- Yr hawl i gael gwybod (Mai 2018)
- Gwneud penderfyniadau a phroffilio'n awtomatig (Mai 2018)
- Penderfynu beth yw data personol (Mai 2018)
- Plant a'r GDPR (Mai 2018)
- Amgryptio (Tachwedd 2018)
- Rheolwyr a Phroseswyr (Rhagfyr 2018)
- Contractau a Rhwymedigaethau rhwng rheolwyr a phroseswyr (Rhagfyr 2018)
- Canllaw Gwarchod Data (DPA 2018) (Rhagfyr 2018)

3. Newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau

- 3.1 Cyhoeddwyd y polisiau a'r gweithdrefnau canlynol ar wefan y Llyfrgell: Amodau Contract Safonol ar gyfer Prynu Nwyddau a / neu Wasanaethau; Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- 3.2 Diweddarwyd y Polisi Diogelu Data a pholisiau adnoddau dynol perthnasol y Llyfrgell ym mis Mai i adlewyrchu gofynion y GDPR
- 3.3 Drafftwyd a/neu diweddarwyd datganiadau preifatrwydd, canllawiau a ffurflen gais ceisiadau mynediad gwrthrych, a'r datganiad sy'n ymwneud â phrosesu data sensitif neu i adlewyrchu gofynion y GDPR

- 3.4 Cafodd *Donor Strategy* (cronfa ddata o gysylltiadau) ei glanhau a'i diweddarau cyn cyflwyno'r GDPR ym mis Mai 2018 .
- 3.5 Cynhaliodd archwilwyr mewnol y Llyfrgell, RSM, archwiliad ymgynghorol ym mis Mehefin; bydd y canfyddiadau allweddol yn gyrru gwaith pellach i sicrhau bod y Llyfrgell yn cydymffurfio ag arfer gorau.

4. Cyswllt â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

- 4.1 Adnewyddwyd cofnod y Llyfrgell yng Nghofrestr Gwarchod Data'r Comisiynydd Gwybodaeth. Daw'r cofrestriad y i ben ar 11 Chwefror 2020. Gwneir Adnewyddiadau trwy orchymyn banc. ond bydd unrhyw newidiadau i'r cofrestriad yn cael eu hysbysu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn syth.

5. Ceisiadau Mynediad Gwrthrych

- 5.1 Ni dderbyniwyd unrhyw Geisiadau Mynediad Gwrthrych yn ystod 2018.

6. Toriadau diogelwch

- 6.1 Adroddwyd am un digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Awst a oedd yn cynnwys cyfrineiriau a storiwyd yn ein system gwasanaethau darllenwyr, ond derbyniwyd cadarnhad gan y Comisiynydd na ystyriwyd bod hyn yn torri amodau dan GDPR. Rhoddwyd camau lliniaru eu rhoi yn yn eu lle yn syth i sicrhau nad yw tor-diogeledd o'r fath yn digwydd eto.

7. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff

- 7.1 Fel rhan o'u hymsefydlu gorfodol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, mae pecynnau gwybodaeth Staff yn cynnwys allbrintiau o sleidiau o gyflwyniadau l'r GDPR a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 7.2 Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen gyda chynrychiolwyr o bob adran i fod yn gyfrifol am ddrafftio ddatganiadau preifatrwydd penodol i bob maes gwaith.
- 7.3 Cynhaliwyd archwiliad gwybodaeth o wybodaeth bersonol a'i wirio yn erbyn y Gofrestr Asedau Gwybodaeth a'r Siedylau Dargadw; dilewyd unrhyw wybodaeth lle nad oes gennym yr hawl i'w storio/brosesu mwyach.
- 7.4 Dosbarthwyd sleidiau Powerpoint i bob aelod o staff fel canllaw i'r GDPR. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant manwl hefyd i staff.
- 7.5 Mae'r Dirprwy Swyddog Diogelu Data yn aelod o rwydwaith Swyddogion Diogelu Data Cymru gyfan. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, sy'n cael eu mynychu gan staff Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, lle mae arfer da yn cael ei rannu.